DYFODOL DISGLAIR

Strategaeth Addysg 2026-2030 | Hawdd ei Ddeall



Pob dysgwr yn ffynnu
Pob ysgol yn gryf
Pob cymuned yn ymgysylltu

Beth yw'r ddogfen hon?

Dyma grynodeb hawdd ei ddeall o Strategaeth Addysg Dyfodol Disglair Merthyr Tudful. Mae'n egluro beth rydym am ei wella, beth fyddwn yn ei wneud a sut byddwn yn gwybod a yw'r strategaeth yn gweithio.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Plant a phobl ifanc, teuluoedd, staff ysgolion, llywodraethwyr, partneriaid ac unrhyw un sydd am ddeall ein cynlluniau ar gyfer addysg.

1. Ein gweledigaeth

Yr hyn rydym am ei gyflawni ar gyfer Merthyr Tudful

Ein huchelgais ar y cyd

Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc ym Merthyr Tudful gael y cyfleoedd gorau posibl i ddysgu ac mewn bywyd, lle mae:-

Pob dysgwr yn ffynnu.

Pob ysgol yn gryf.

Pob cymuned yn ymgysylltu.

Pam mae hyn yn bwysig

Gall addysg wella lles, cryfhau cymunedau a helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol.

2. Y gwerthoedd sy’n ein harwain

Pedwar syniad pwysig

1. Tegwch

Nid yw bod yn deg bob amser yn golygu rhoi’r un peth i bawb. Mae angen mwy o help neu gymorth gwahanol ar rai dysgwyr i lwyddo.

2. Rhagoriaeth

Rydym am weld addysgu o ansawdd uchel, arweinyddiaeth gref a chwricwlwm cyfoethog ym mhob ysgol.

3. Perthyn

Dylai dysgwyr deimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a’u cynnwys, a’u bod yn perthyn i’w hysgol a’u cymuned.

4. Partneriaeth

Rhaid i ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau a chymunedau weithio gyda’i gilydd. Mae gwella addysg yn gyfrifoldeb ar y cyd.

3. Pam mae angen newid

Adeiladu ar gynnydd ac ymateb i heriau newydd

- Mae rhai dysgwyr yn wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi, iechyd, lles neu anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae angen gwella presenoldeb, ymgysylltiad a chyflawniad.
- Mae ysgolion a gwasanaethau yn wynebu pwysau ariannol a phwysau ar y gweithlu.
- Mae llai o enedigaethau yn golygu llai o ddisgyblion a mwy o leoedd gwag mewn ysgolion.
- Mae angen sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol cryf ar ddysgwyr ar gyfer byd sy'n newid.
- Mae teuluoedd a chymunedau am i wasanaethau weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol.

Ein hymateb

Mae Dyfodol Disglair yn dod ag ysgolion a phartneriaid ynghyd i weithio tuag at bedwar nod clir. Mae'r ffocws ar ddysgu o ansawdd uchel, cynhwysiant, arweinyddiaeth a phartneriaeth.

4. Nod 1

Addysgu sy'n Ysbrydoli, Dysgwyr sy'n Ymgysylltu



Yr hyn rydym am ei weld

Dylai pob dysgwr gael addysgu o ansawdd uchel a chwricwlwm diddorol sy'n eu helpu i fwynhau dysgu, mynychu'n rheolaidd a chyflawni eu potensial.

- Gwella addysgu drwy ddysgu proffesiynol, cydweithio ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cefnogi cwricwlwm uchelgeisiol sy'n gysylltiedig â bywyd lleol, y Gymraeg a diwylliant Cymru, a chyfleoedd yn y dyfodol.
- Cryfhau sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial a thechnoleg newydd yn ddiogel ac yn effeithiol.

Sut olwg fydd ar lwyddiant

Mae dysgwyr yn hyderus, yn llawn cymhelliant ac yn gwneud cynnydd cryf. Mae ysgolion yn darparu profiadau dysgu sy'n gyson dda ac yn paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant, gwaith a bywyd.

5. Nod 2

Darpariaeth Gynhwysol, Deilliannau Teg



What we want

Every learner should feel that they belong. Needs should be identified early and support should remove barriers to learning, attendance and participation.

- Sicrhau bod cynhwysiant a thegwch yn ganolog i waith ysgolion a gwasanaethau.
- Datblygu gweithlu medrus a hyderus sy'n gallu diwallu gwahanol anghenion dysgwyr.
- Gwella presenoldeb, cyfranogiad ac ymgysylltiad drwy weithio gyda dysgwyr, teuluoedd a phartneriaid.
- Darparu help cynnar a chymorth cydgysylltiedig pan fydd anghenion yn codi.

Sut olwg fydd ar lwyddiant

Mae mwy o ddysgwyr yn mynychu'n rheolaidd, yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cynnwys, yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir ac yn parhau i ymgysylltu ag addysg. Mae nifer y gwaharddiadau yn gostwng ac anghydraddoldebau yn lleihau.

6. Nod 3

Arweinyddiaeth Gref, Ysgolion Cryf



Yr hyn rydym am ei weld

Dylai pob ysgol gael arweinwyr a llywodraethwyr hyderus sy'n gallu canolbwyntio ar addysgu, lles, gwella a'r deilliannau gorau i ddysgwyr.

- Datblygu arweinyddiaeth gref, llywodraethu cadarn ac atebolrwydd clir.
- Defnyddio cydweithio, cyfrifoldeb ar y cyd a her a chymorth cymesur i wella ysgolion.
- Defnyddio arian, adeiladau, staff a thechnoleg yn effeithlon ac yn gynaliadwy.
- Cynllunio ar gyfer recriwtio, cadw staff, dysgu proffesiynol a datblygu arweinwyr y dyfodol.

Sut olwg fydd ar lwyddiant

Mae ysgolion yn cael eu harwain yn dda, yn gweithio gyda'i gilydd ac yn parhau i wella. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth. Mae adnoddau ac amgylcheddau dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol er budd dysgwyr.

7. Nod 4

Partneriaid Cysylltiedig, Dysgwyr sy'n Ffynnu



Yr hyn rydym am ei weld

Dylai ysgolion fod â chysylltiadau â theuluoedd, gwasanaethau, cyflogwyr a chymunedau fel bod dysgwyr yn cael cymorth cydgysylltiedig a chyfleoedd ehangach.

- Cryfhau gwaith partneriaeth a chyfrifoldeb ar y cyd am les, presenoldeb a deilliannau.
- Creu llwybrau cliriach i addysg bellach, hyfforddiant, cyflogaeth a dysgu gydol oes.
- Defnyddio adnoddau cymunedol, cyfleoedd diwylliannol a mannau dysgu i gryfhau ymdeimlad o berthyn a chyfranogiad.
- Helpu teuluoedd i gael cymorth a chyfleoedd yn haws.

Sut olwg fydd ar lwyddiant

Mae dysgwyr yn cael profiadau cyfoethocach, cymorth cryfach a llwybrau cliriach ar gyfer y dyfodol. Mae teuluoedd a chymunedau yn bartneriaid gweithredol mewn dysgu.

8. Sut bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni

Mae gan bawb ran i'w chwarae

Yr Awdurdod Lleol

Yn pennu'r cyfeiriad, yn cydlynu gwasanaethau, yn cefnogi ac yn herio ysgolion, yn monitro cynnydd ac yn atebol i'r cyhoedd.

Ysgolion

Yn rhoi'r strategaeth ar waith drwy addysgu, cynhwysiant, arweinyddiaeth, cynllunio ar gyfer gwella ac ymgysylltu â'r gymuned.

Partneriaid

Mae gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau ieuenctid, cyflogwyr, a sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi dysgwyr a theuluoedd.

Dysgwyr a theuluoedd

Yn rhannu eu profiadau ac yn helpu i lywio sut mae'r strategaeth yn cael ei chyflawni a'i hadolygu.

9. Sut byddwn yn gwirio cynnydd

Troi cynlluniau yn ganlyniadau

Cynllun cyflawni blynyddol

Bydd cynllun cyflawni yn cefnogi'r strategaeth, gyda chamau gweithredu, cerrig milltir, cyfrifoldebau a mesurau clir.

- Presenoldeb ac absenoldeb parhaus.
- Cynnydd a chyflawniad dysgwyr.
- Gwaharddiadau, ymddygiad, lles a chynhwysiant.
- A oes digon o ddarpariaeth leol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.
- Cyfranogiad a dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu arweinyddiaeth, recriwtio a chadw staff.
- Ymgysylltiad teuluoedd a'r gymuned.
- Symud ymlaen i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Gwrando yn ogystal â mesur

Mae data yn bwysig, ond byddwn hefyd yn gwrando ar ddysgwyr, teuluoedd, ysgolion, staff, llywodraethwyr a phartneriaid am eu profiadau.

10. Beth ddylai Dyfodol Disglair ei olygu

Y gwahaniaeth y dylai pobl ei weld

- Mae dysgwyr yn mwynhau dysgu, yn mynychu'n rheolaidd ac yn gwneud cynnydd cryf.
- Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.
- Mae cymorth ar gael yn gynnar ac yn diwallu anghenion.
- Mae addysgu, arweinyddiaeth a llywodraethu yn gyson gryf.
- Mae gan deuluoedd hyder mewn ysgolion ac maent yn gallu cael help.
- Mae ysgolion a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân.
- Mae mwy o bobl ifanc yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael eu hyrwyddo a'u dathlu.
- Mae amgylcheddau dysgu yn groesawgar, yn gynhwysol ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Y brif neges

Mae Dyfodol Disglair yn ymwneud â gwella cyfleoedd bywyd. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn helpu pob dysgwr ym Merthyr Tudful i ffynnu nawr ac yn y dyfodol.

Geiriau allweddol

Canllaw byr

Tegwch

Rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl er mwyn iddynt gael cyfle teg.

Cynhwysiant

Sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan ac yn teimlo eu bod yn perthyn.

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae angen cymorth ychwanegol neu wahanol ar rai dysgwyr i ddysgu.

Cwricwlwm

Yr hyn sy'n cael ei addysgu i ddysgwyr a'r profiadau a gânt yn yr ysgol.

Llywodraethu

Sut mae llywodraethwyr yn rhoi cyfeiriad, cymorth a her i ysgol.

Amlasiantaethol

Gwahanol wasanaethau a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd.

Absenoldeb parhaus

Pan fydd dysgwr yn colli llawer o amser ysgol.

AHY

Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

NEET

Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.